# Amserlen Penderfyniadau

## Panel Trwyddedu (Tacsi)

**I BOB AELOD CYNGOR DINAS CASNEWYDD**

**Atodlen Penderfyniadau a gyhoeddwyd ar 4 Mai 2021**

Gwnaeth y Panel Trwyddedu Tacsis y penderfyniadau canlynol ar 4 Mai 2021, a ddaeth i rym ar unwaith.

Cynghorwyr: J Hughes (Cadeirydd), Y Forsey, K Thomas

---

### Rhan 2

### Eitemau Eithriedig neu Gyfrinachol

Mae'r eitemau canlynol yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Felly, nid yw adroddiadau a phapurau cefndir sy'n ymwneud â'r penderfyniadau hyn i'w cyhoeddi ac maent yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf fel y maent yn ymwneud â chylchrediad i'r wasg a'r cyhoedd.

**LIC PAN 04/21**
**Trwyddedau Llogi Preifat / Cerbydau Hacni**

**Penderfyniad**

Rhoddodd y Panel Tacsis ystyriaeth ofalus i'r ceisiadau perthnasol, gan gynnwys yr holl dystiolaeth a roddwyd ger eu bron gan yr holl bartïon dan sylw a gwnaed y penderfyniadau canlynol:-

1. Gyrrwr FMAO

Ystyriodd y pwyllgor y dystiolaeth a gyflwynwyd, a chytunodd y teimlwyd y dylai gyrrwr FMAO gadw ei drwydded, o dan yr amod ei fod yn cwblhau cwrs *pass plus* o fewn tri mis.

Cytunodd y pwyllgor i roi'r drwydded ar ôl cynhyrchu ardystiad o basio 'Cymhwyster Gyrru Pass Plus' o fewn y 3 mis nesaf (4pm ar 4 Awst 2021).

2. Gyrrwr GSS

Roedd y pwyllgor yn gwerthfawrogi bod yr ymgeisydd wedi cymryd cyfrifoldeb am ei weithredoedd, ac wedi cytuno i beidio ag atal ei drwydded, ond yn cynnig rhybudd ffurfiol i'r gyrrwr.

3. Gyrrwr VC

Trafododd y pwyllgor yr achos a rhoddodd ystyriaeth briodol i'r materion sy'n codi.

Roedd hwn yn benderfyniad agos. Roedd y pwyllgor am ei gwneud yn glir i'r ymgeisydd bod disgwyl i yrwyr reoli eu gwaith papur a sicrhau bod popeth mewn trefn. Cytunodd y pwyllgor i roi'r drwydded ar ôl cynhyrchu ardystiad o basio 'Cymhwyster Gyrru Pass Plus' o fewn y 3 mis nesaf (4pm ar 4 Awst 2021). Mae'r pwyllgor hefyd yn gofyn i deledu cylch cyfyng gael ei osod yn y car cyn i'r gyrrwr ddechrau ar ei drwydded.

4. Gyrrwr MA

Trafododd y pwyllgor fod gwylio'r ffilm CCTV wedi bod yn ddefnyddiol iawn. Trafododd y pwyllgor hefyd ei bod yn ymddangos bod yr ymgeisydd wedi cwblhau nifer fawr o deithiau fel gyrrwr tacsi, a oedd yn awgrymu ei fod yn gweithio'n galed iawn. Cytunodd y cynghorwyr fod hwn yn fater amhendant, gan fod anghysondeb rhwng yr honiadau a wnaed a'r hyn yr oedd yr ymgeisydd yn ei hawlio. Teimlai'r pwyllgor nad oedd ganddynt wybodaeth bendant am y mater.

Yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd, er gwaethaf pryderon difrifol a godwyd gan deithwyr, nid oedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn cyrraedd y trothwy ac roedd yn amhendant. Ni wnaed unrhyw gwynion i'r heddlu yn y naill achos na'r llall, nac i'r awdurdod lleol ynglŷn â'r ail achos. Ni welodd y pwyllgor unrhyw beth yn y dystiolaeth fideo a oedd yn cadarnhau'r pryderon. Yn seiliedig ar y cyflwyniad y bore yma, mae’r pwyllgor wedi penderfynu peidio â chymryd unrhyw gamau pellach, ond bydd yn ymgymryd â chynnig MA o brawf cyffuriau. Mae MA yn ymwybodol bod Cyngor Dinas Casnewydd yn barod i gynnal prawf cyffuriau ar hap dros y cyfnod 12 mis nesaf. Mae'r pwyllgor yn cadw'r hawl i brofi cyffuriau ar hap i'r ymgeisydd dros y 12 mis nesaf.

**Ymgynghoriad**

Ddim yn berthnasol.
**Gweithredir gan:**Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio
**Amserlen Weithredu:** Ar unwaith

Person cyswllt: Ellie Howard, Swyddog Llywodraethu
Ffôn: 01633 656656
E-bost:democratic.services@newport.gov.uk
Dyddiad cyhoeddi: Dydd Iau, 29 Ebrill 2021